Ken Skates AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1af Ebrill 2016

Annwyl Christine,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Chwefror yn amgáu copi o Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr Adolygiad o Siarter y BBC a hefyd eich llythyr dyddiedig 8 Mawrth oedd yn cynnwys copi o adroddiad byr y Pwyllgor ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig yn ymwneud â'r adolygiad o Siarter y BBC.

Roeddwn yn falch i weld cytundeb rhyng-bleidiol amlwg yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiadau'r Pwyllgor ar 16 Mawrth, a arweiniodd at basio'r cynnig yn unfrydol.

Atodaf ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiadau hyn.

Ken Skates AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL AR EI YMCHWILIAD I'R ADOLYGIAD O SIARTER Y BBC A'R MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH CYSYLLTIEDIG

MAWRTH 2016

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn falch i ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr Adolygiad o Siarter y BBC ac adroddiad byr y Pwyllgor ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig yn ymwneud â'r Adolygiad o Siarter y BBC.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn adlewyrchu cytundeb trawsbleidiol ar y mwyafrif o faterion dan ystyriaeth. Adlewyrchwyd hyn yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mawrth.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylid cryfhau'r datganiad ynglŷn â dibenion cyhoeddus y BBC i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu anghenion y Deyrnas Unedig, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn galw am asesiad o anghenion Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ar ôl datganoli ers tro. Er enghraifft, codwyd hyn gennym yn ein hymatebion i amrywiol ymgynghoriadau Ofcom dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Cynllun Blynyddol Ofcom a'i adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Yn dilyn ymateb manwl Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Siarter y BBC, ar 19 Hydref ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i atgyfnerthu rhai o'n pwyntiau allweddol am ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Galwodd am adolygiad brys o ddibenion cyhoeddus y BBC yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â chyflenwi i gynulleidfaoedd Cymreig a'r modd mae'n portreadu Cymru. Byddai angen i adolygiad o'r fath ystyried S4C, y mae iddi, er gwaethaf y ffaith ei bod yn annibynnol o'r BBC, synergeddau diwylliannol, masnachol ac addysgol clir.

Dylid cynnal adolygiad o ddibenion cyhoeddus y BBC nawr, ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Siarter, i lywio trafodaethau a datblygu 'compact' i Gymru yn y Siarter newydd. I fod yn glir, nid ydym yn galw ar i'r gwerthusiad o Ddiben Cyhoeddus y BBC fod ar wahân i'r trafodaethau ar yr Adolygiad Siarter. Dylent fod yn gwbl gyd-gysylltiedig.

Byddai adolygiad o briodoldeb dibenion cyhoeddus y BBC fel y maent yn berthnasol i Gymru - a'r modd mae'r BBC wedi cyflawni'r dibenion hynny hyd yma wrth gyflenwi - yn berthnasol yn uniongyrchol yng nghyd-destun yr adolygiad o'r Siarter ac i gynorthwyo i ddatblygu "compact" clir a mesuradwy i Gymru i'w gynnwys yn y Siarter newydd. Byddai'r "compact" hwn rhwng y darlledwr/wyr a Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru, yn egluro pa wasanaethau fyddai'n ddyletswydd ar y BBC i'w

cyflenwi yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, i gynulleidfaoedd yng Nghymru a hefyd am Gymru i weddill y byd.

Mae adolygiad Syr David Clementi o Lywodraethiant y BBC hefyd yn bwysig, oherwydd bydd ei argymhellion yn siapio'r modd y caiff dibenion a gwerthoedd y BBC eu cyflenwi a'u monitro, o ran y Deyrnas Unedig a Chymru. Trosglwyddwyd ein hadborth ar faterion yn ymwneud â llywodraethiant (yn ein hymateb i'r Adolygiad o'r Siarter) i Syr David ei ystyried. Hefyd cefais drafodaeth adeiladol iawn gyda Syr David fel rhan o'i adolygiad ac rwyf i'n falch ei fod wedi gwrando ar lawer o'n pwyntiau allweddol.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth nesaf Cymru fynd ati ar fyrder i sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru. Dylai rôl y fforwm gynnwys, ymysg pethau eraill, adolygu, monitro a chloriannu darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru. Dylai ddefnyddio arbenigedd ar draws sectorau'r cyfryngau a'r byd academaidd.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae gan Lywodraeth Cymru feddwl agored am hyn a bydd yn parhau i'w adolygu.

Crëwyd Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ddarlledu yn 2012 am gyfnod penodol, i gynghori'r Prif Weinidog ar lywodraethiant a rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'r angen i ddiogelu a chynnal buddiannau diwylliannol, ieithyddol, economaidd a democrataidd Cymru.

Mae cyngor y Panel eisoes wedi ychwanegu gwerth sylweddol at ein dialog parhaus, cadarn gydag Ofcom a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion darlledu, gan gynnwys adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Adolygiad o'r Siarter.

Bu'r Panel Cynghori ar Ddarlledu'n darparu cyngor ar yr amrediad llawn o faterion darlledu yn ystod ei gyfnod o 18 mis gan awgrymu blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu ar faterion darlledu dros y blynyddoedd nesaf, i'w hystyried gan y Prif Weinidog.

Mae cyn Gadeirydd y Panel Cynghori ar Ddarlledu yn parhau i gynghori Gweinidogion, yn ei rôl fel Cadeirydd Panel Sector y Diwydiannau Creadigol – gyda chylch gorchwyl hwnnw bellach yn cynnwys cynghori ar faterion yn ymwneud â darlledu a chynyddu effaith Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell y dylai'r BBC ddatblygu targedau penodol a mesuradwy ar gyfer portreadu Cymru yn ei raglenni rhwydwaith. Dylai gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd yn erbyn y targedau hyn (gweler argymhelliad 7).

Ymateb: Derbyn

Y BBC yw'r darparwr mwyaf sylweddol yng Nghymru o hyd ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes heblaw rhai'r rhwydwaith ac rydym ni'n cydnabod bod y BBC wedi bod yn sbardun allweddol i'r gwelliannau sydd wedi'u cyflawni o ran y sylw a roddir i faterion gwleidyddol sydd wedi'u datganoli yng Nghymru ers cyhoeddi adroddiad King. Fodd bynnag, mae angen brys am rai gwelliannau o hyd.

Mae rôl y BBC yn bwysicach fyth yng Nghymru pan ystyriwch wendid y cyfryngau print. Cyfyngedig yw'r newyddion sydd ar gael yng Nghymru a does dim digon o leisiau i'w clywed, sy'n golygu bod y mwyafrif o bobl yn ddibynnol ar ddarparwyr newyddion nad ydynt yn cynnwys sylw i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn bryderus iawn am y prinder sylw i Gymru ar newyddion y rhwydwaith ac ar raglenni newyddion prif ffrwd fel *Today*.

Nid oes cynrychiolaeth ddigonol i Gymru, hyd yn oed pan geir straeon sy'n berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig fel y diffyg cyfeiriadau at Gymru pan gyflwynwyd taliadau gorfodol yn Lloegr ar gyfer bagiau defnydd sengl, a roddodd yr argraff anghywir fod y datblygiad hwn yn effeithio ar y Deyrnas Unedig gyfan. Yn fwy pryderus, o bosibl, mae'r duedd hon wedi'i gweld eto yn adroddiadau'r BBC ar yr anghydfod parhaus rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a meddygon iau yn Lloegr ynghylch eu contractau.

Rydym ni'n falch fod y BBC wedi cryfhau ei ymrwymiad i adlewyrchu amrywiaeth cyflawn bywyd ar draws y Deyrnas Unedig ac rydym ni'n croesawu mewn egwyddor ei gynlluniau i ailddrefnu'r newyddion i ddiwallu anghenion newidiol y cynulleidfaoedd yn y cenhedloedd, gan gynnwys Cymru.

Rhaid i'r BBC fynd i'r afael â'r canlynol, er mwyn adeiladu ar y rôl allweddol sydd ganddo eisoes fel darparwr newyddon am Gymru i bobl Cymru:

- yr angen i fynd i'r afael â chynrychiolaeth annigonol a diffygion yn y modd y caiff Cymru ei phortreadu ar newyddion y rhwydwaith;
- yr angen i ddarlledu chwarae rhan allweddol wrth wella'r modd y caiff gwasanaethau newyddion eu cyflenwi i Gymru yn y dyfodol;
- yr angen am ragor o wybodaeth am sut y byddai cynigion y BBC i rannu adnoddau newyddiadurol gyda darparwyr eraill yn gweithio ac a fyddent yn hyrwyddo lluosogrwydd;
- yr angen am ragor o wybodaeth am sut y bydd y BBC yn ariannu ei weledigaeth am well gwasanaethau i Gymru a'r cenhedloedd eraill.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell y dylai'r BBC roi trefniadau ar waith i ddatganoli ei waith comisiynu i sicrhau bod comisiynwyr rhwydwaith ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau wedi'u lleoli yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau hynny.

Ymateb: Derbyn

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell y dylai'r BBC ddatganoli cyfran fwy o gyllid y rhwydwaith i gomisiynwyr yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau fel ffordd o gynyddu ystod ac amrywiaeth yr allbwn, yn lleol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Ymateb: Derbyn

Mae polisïau comisiynu'r BBC yn cael effaith uniongyrchol ar ei ddarpariaeth yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, gan gynnwys Cymru. Ar yr ochr gadarnhaol, mae gan y BBC gomisiynydd i Gymru, er mai yn Llundain mae wedi'i leoli bellach. Fodd bynnag rydym ni wedi bod yn dweud ers tro y dylid ystyried Cymru'n ganolfan ar gyfer comisiynu drama a dywedom yn ein hymateb i'r Adolygiad Siarter y dylai fod gan y comisiynwyr a'r cynhyrchwyr ganllawiau clir, yn seiliedig ar set o ddibenion a

gwerthoedd wedi'u hadnewyddu. O ganlyniad i'r adolygiad rydym ni'n galw amdano, byddai ffocws cryfach gan y dibenion a'r gwerthoedd hyn ar y cenhedloedd a'r rhanbarthau.

Nid ydym yn derbyn barn Gweithrediaeth y BBC y byddai diddymu cwotâu, ynghyd â gofyniad (neu fel maen nhw'n ei weld, "cyfle") i BBC Cymru gystadlu am gomisiynau'n gysylltiedig â Chymru, yn cynyddu'r cyfanswm o raglenni'n gysylltiedig â Chymru ar y rhwydwaith. Rydym ni felly'n croesawu argymhellion Ymddiriedolaeth y BBC i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a wnaed yng nghyd-destun y cynnig ynghylch Stiwdios y BBC, y dylid cadw'r cwotâu.

O ran polisi ac ymarfer, rhaid i'r BBC fabwysiadu agwedd fwy cynrychioliadol at gomisiynu a chynhyrchu gan y cenhedloedd a'r rhanbarthau ac ar eu cyfer. Fel Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus, mae cyfrifoldeb ar y BBC i ganfod a datblygu talent ar draws pob maes cynhyrchu, a chefnogi, datblygu a chyflenwi cynhyrchu ar draws holl genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn falch fod y Pwyllgor yn cytuno gyda Llywodraeth Cymru y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru.

Ar 17 Awst 2015 ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Arglwydd Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, i dynnu sylw at y bwlch cynyddol mewn cyllid rhwng Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, gan ychwanegu bod angen £30m yn ychwanegol i sicrhau rhaglenni sy'n wirioneddol adlewyrchu bywydau pobl yng Nghymru.

Yng nghyd-destun y toriadau mae BBC Cymru Wales wedi'u hamsugno dros y deng mlynedd ddiwethaf, cred Llywodraeth Cymru bod angen £30 miliwn yn ychwanegol yn benodol ar gyfer rhaglenni yn yr iaith Saesneg, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £50m. Byddai hyn yn caniatáu i gynulleidfaoedd Cymreig gael gorsaf deledu genedlaethol gredadwy a allai ddarparu cynnwys o ansawdd uchel yn Saesneg, gan gynnwys drama, comedi a hefyd o bosibl cyfraniadau i'r rhwydwaith.

Mae'n bwysig pwysleisio na ddylai ein galwad am gyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni Saesneg gael ei dorri o'r cyllid a ddyrennir i S4C nac o'r £20m mae BBC Cymru Wales yn ei dderbyn ar gyfer rhaglenni Cymraeg. Rydym ni'n gwbl ymwybodol o'r rôl bwysig mae BBC Cymru Wales yn ei chwarae'n darparu cynnwys Cymraeg ac wrth gwrs dylai hyn barhau.

Argymhelliad 7: Rydym yn argymell y dylai'r BBC gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cynulliad ar ei allbynnau a'i weithrediadau sy'n berthnasol i Gymru, a darparu datganiad archwiliedig o gyfrifon.

Ymateb: Derbyn

Argymhelliad 8: Rydym yn argymell y dylai'r BBC ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n berthnasol i Gymru.

Ymateb: Derbyn

Mae fersiwn terfynol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig, rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gweithrediaeth y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC, yn cadw ymrwymiadau oedd yn y Memorandwm gwreiddiol (y mae'n ei ddisodli). Yn ogystal mae'n ffurfioli rôl craffu barhaus y Cynulliad Cenedlaethol, drwy egluro'r dyletswyddau cysylltiedig a gaiff eu gosod ar y BBC - darparu adroddiadau blynyddol a datganiadau o gyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymddangos gerbron pwyllgor(au) perthnasol y Cynulliad ar yr un sail ag y mae'n ymddangos gerbron pwyllgorau Senedd y Deyrnas Unedig.

Mae'r dyletswyddau hyn yr un fath â'r rheini a gynhwysir ym Memorandwm yr Alban a'r rheini a gynhwysir mewn Memorandwm ar gyfer Gogledd Iwerddon sydd hefyd yn agos at gael ei lofnodi'n derfynol.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell y dylai'r pumed Cynulliad benderfynu sefydlu pwyllgor ar gyfathrebu. Byddai'r pwyllgor hwn yn sicrhau bod y BBC a sefydliadau eraill yn y cyfryngau sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyhoeddus ynglŷn â chyflawni eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiadau i Gymru. (Tudalen 35)

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yw hwn, ond mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol mewn egwyddor i'r cynnig hwn, a fyddai'n cynyddu atebolrwydd darlledwyr a'r rheoleiddiwr i'r Cynulliad.

Argymhelliad 10: Fel rhan o adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gylch gorchwyl, llywodraethiant a chyllid S4C, rydym yn argymell y dylai anghenion ariannol ariannu S4C yn y dyfodol gael eu hystyried ar sail eu teilyngdod eu hunain, ar wahân i ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol y BBC ar gyfer Cymru. (Tudalen 42)

Ymateb: Derbyn

Mae'n hanfodol fod S4C yn cael cyllid digonol, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, er mwyn cynnal ei gallu i wasanaethu'r gynulleidfa Gymraeg a pharhau i chwarae rôl hanfodol yn cefnogi'r Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad i beidio â gweithredu'r toriad a gynigiwyd yn wreiddiol yn Adolygiad Gwariant mis Tachwedd diwethaf ar S4C a chynnal cyllid 2016-17 ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol gyfredol. Rydym ni hefyd yn falch bod Ymddiriedolaeth y BBC wedi cyhoeddi ar 17 Chwefror y bydd y cyllid i'r sianel a ddarperir gan ffi'r drwydded yn parhau ar yr un lefel yn 2017-18 ag yn 2016-17.

Roeddem ni hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu cynnal adolygiad cynhwysfawr o S4C, sy'n rhywbeth rydym ni wedi gwthio'n barhaus amdano ac a addawyd yn wreiddiol yn 2010. Fodd bynnag, dylai'r adolygiad ddigwydd ochr yn ochr ag Adolygiad Siarter y BBC yn hytrach nag ar ôl i hwnnw gael ei gwblhau a hefyd dylai fod yn rhan o adolygiad ehangach, mwy sylfaenol o anghenion Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

Rwyf i wedi hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl chwarae rhan lawn yn yr adolygiad o S4C, gan gynnwys datblygu'r cylch gorchwyl.

Argymhelliad 11: Rydym yn argymell y dylai llinellau atebolrwydd rhwng S4C a'r Cynulliad gael eu ffurfioli drwy gytundeb a fydd yn rhwymo S4C i gyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i'r Cynulliad, ac i ymddangos gerbron pwyllgorau Cynulliad. (Tudalen 42)

Ymateb: Cytuno mewn Egwyddor

Byddai Llywodraeth Cymru yn hapus iawn i drafod opsiynau ar gyfer datblygu cytundeb neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda S4C a Chomisiwn y Cynulliad.

ADRODDIAD AR Y MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH DIWYGIEDIG DRAFFT: ADOLYGIAD O SIARTER Y BBC

- **Rydym o'r farn y dylid newid y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig i ddarparu ar gyfer gosod adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig sy'n benodol i Gymru gerbron y Cynulliad.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y Pwyllgor wedi ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig, sy'n cwmpasu'r adolygiad hwn ac adolygiadau o'r Siarter yn y dyfodol.

Fel y nodir yn ein hymateb i argymhelliad 7 yn Adroddiad y Pwyllgor, rydym ni'n croesawu'r ffaith y bydd y BBC yn y dyfodol yn darparu adroddiadau a datganiadau o gyfrifon blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn ymddangos gerbron pwyllgor(au) perthnasol y Cynulliad ar yr un sail ag y mae'n ymddangos gerbron pwyllgorau Seneddol y Deyrnas Unedig. Caiff trafodaethau pellach eu cynnal gyda'r BBC ynghylch sut y caiff yr wybodaeth hon ei chyflwyno a'r lefel o fanylder fydd ei angen.

- **Credwn y dylid darparu ar gyfer ymgynghori'n llawn ac agored gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad am bennu ffi'r drwydded yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig.**

Ymateb: Gwrthod

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig yn cadarnhau rôl ffurfiol, ymgynghorol Llywodraeth Cymru yn y broses o adolygu'r Siarter ac yn ffurfioli rôl y Cynulliad Cenedlaethol o ran craffu'r BBC yn barhaus.

Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid ehangu hyn i ymgynghori ar osod ffi'r drwydded. Mae'n bwysig fod unrhyw strwythurau rheoli a llywodraethu newydd yn sicrhau annibyniaeth y BBC o'r Llywodraeth, yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Gellid dadlau y dylid cael cyfeiriad penodol yn y Siarter at annibyniaeth y BBC, y tu hwnt i'r ystyriaethau strwythurol hyn. Gallai hyn gynnwys materion fel cyllido - yn enwedig y broses ar gyfer setliad ffi'r drwydded. Byddai addasu cyfnod y Siarter, dyweder i naw neu un ar ddeg o flynyddoedd, hefyd yn helpu i ddatgysylltu cylch Adolygu'r Siarter oddi wrth galendr Etholiadol y Deyrnas Unedig, sydd yn amlwg wedi profi'n broblem wirioneddol yn yr achos hwn.